


Cymeriadau dychrynlyd
Calan Gaeaf (gw tud 12)tud 6
Helo 'Natud 8
Y Llew Dutud 9
Sioe Ffasiwntud 10
Dydd a Nos

Ail-wylltwyr yn ail-feddwl

O ganlyniad i'r protestio gan ffermwyr a thrigolion lleol, mae 'Rewilding Britain' wedi penderfynu tynnu nôl o'i ran yn y prosiect 'O'r Mynydd i'r Môr', sef menter ar y cyd sy'n gweithio er lles yr economi lleol a bywyd gwyllt yng nghanolbarth Cymru.

Adroddwyd yn rhifyn Medi o Bapur Pawb ar y cyfarfod yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ym mis Gorffennaf a arweiniodd at basio cynnig na ddylai Rewilding Britain barhau i arwain y prosiect.

Ddiwedd Hydref cyhoeddwyd bod 'Rewilding Britain', yn camu o'r neilltu.

Yn ôl datganiad gan 'O'r Mynydd i'r Môr':

'Mae'r penderfyniad yn dilyn adborth gan aelodau o'r gymuned ac undebau ffermwyr a oedd yn anhapus â'r modd yr oedd Rewilding Britain yn gysylltiedig â'r prosiect. O ganlyniad, roedd partneriaid O'r Mynydd i'r Môr – gan gynnwys Rewilding Britain – yn teimlo bod angen gwneud newidiadau i'r ffordd yr oedd y prosiect yn cael ei gynnal.'

Meddai Prif Weithredwr 'Rewilding Britain', Rebecca Wrigley:

"Rydym yn fach ofnadwy o fod wedi helpu sefydlu O'r Mynydd i'r Môr. Mae'n brosiect ysbrydoledig am adfer natur, buddio cymunedau gwledig a chefnogi'r economi lleol. Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid iddo gael ei arwain a'i gefnogi gan y gymuned leol.

Un o'n prif flaenoriaethau yw y dylai sefydliadau a chymunedau fod wrth galon hyn. Er bod O'r Mynydd i'r Môr yn cynnal cyfres o gyfarfodydd ac ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn lleol, fe ddylem fod wedi cyfathrebu'n fwy eang bod rhaid i'r prosiect gael ei arwain gan sefydliadau lleol."

Ategwyd hyn gan gyfarwyddwr 'O'r Mynydd i'r Môr', Melanie Newton:

"Mae'r gymuned wrth galon prosiect 'O'r Mynydd i'r Môr', ac felly mae barn pobl leol yn hanfodol i'r bartneriaeth. Mae grŵp llywio'r prosiect - gan gynnwys Rewilding Britain - wedi ystyried y pryderon a godwyd gan bobl leol ac undebau ffermio ac wedi penderfynu gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff 'O'r Mynydd i'r Môr' ei reoli. Rydym bellach yn awyddus i symud ymlaen gyda'r gymuned ac arwain y ffordd tuag at ddyfodol sydd o fudd i bawb."

Cafwyd neges hefyd gan yr Aelod Seneddol Ben Lake, a fu'n siarad yn huawdl yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf:

"Mae'n newyddion ardderchog fod Rewilding Britain wedi tynnu allan o'r cynllun. Nid oes gan ffermwyr yr ardal unrhyw ffydd yn y syniad o ail-wylltio. Mae'n tansilio holl fodolaeth amaethu. Cydweithio rhwng amaeth a'r amgylchedd sydd angen, nid rhwyg."

Er bod ffermwyr a'u cyfeillion lleol yn croesawu'r newid cyfeiriad, byddant yn siŵr o barhau yn wylidwrs wrth i'r fenter ddatblygu.

Sioe Ffasiwn



Dwy fodel ifanc: Jessie ac Elen

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Lynwen Morgan 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths (01654) 781264
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgiriadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyr (@papurpawb)

CYMRAG

Cais am Gymorth

Mae Michelle James wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn ohebydd pentref Tre'rddôl. Diolch iddi am ei chyfraniadau. A oes unrhyw un o'r pentref yn barod i gasglu newyddion yn ei lle? Rhowch wybod.

Mae Mair Nutting hefyd yn rhoi'r gorau i baratoi'r golofn boblogaidd 'Pantri Pawb'. Diolch i Mair am yr holl waith. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn golygu neu gyfrannu at y golofn.

Mae angen arnom hefyd cymorth ar gyfer paratoi Papur Pawb Sain. Mae Eurgain wedi bod yn gyfrifol am y gwaith hwn tan nawr ac ry ni'n ddolchgar iawn am ei chyfraniad. A oes rhyw un yn barod i ymgymryd â'r dasg? Mae angen ychydig o sgiliau cyfrifiadurol a golygyddol.

Cysylltwch â'r Golygydd Cyffredinol am wybodaeth bellach:

(gwynjenkins81@gmail.com)

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Ffair Nadolig

Sadwrn, 30 Tachwedd, 2.00 y.p.
Paned a Chacen a Raffls Di-ri

Cynnyrch gwlad a gardd a chegin
Llyfrau'r Lolfa,
Mân gelfi a chardiau gan
Ruth Jên, Gwladys, Anwen
a Lois.

Tylino Thai Trefechan

Trefechan Thai Massage

Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk



Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292



Darlith Flynyddol Morlan-Pant-y-fedwen 2019

6.00, nos Fercher, 20 Tachwedd

'Milltir Sgwâr a Byd Crwn'

Darlith gan...

Yr Athro Elwen Evans Q C
Prifysgol Abertawe

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
morlan.aber@gmail.com

Am ddim

Dyddiadur

TACHWEDD

9 Casglu Sbwriel 10

Eglwysfach

Gwledd Syriaidd 6-8

Cletwr

10 Bethel 10 Richard Lewis

10.45 Gwasanaeth Sul y

Cofio, Neuadd Goffa

Tal-y-bont

Nasareth 10 Oedfa'r

Ofalaeth yn y Garn

Rehoboth 10 Oedfa'r

Ofalaeth yn y Garn

Eglwys Llangynfelyn yn

Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel,

Eglwysfach 9 Gwasanaeth

Sul y Cofio

11 Caffi Marwolaeth 7-8.30

Cletwr

12 Cymdeithas y Chwiorydd

Rehoboth 'Rho imi nerth'

(Beti Griffiths)

Tenis Bwrdd 7 Yr Ystafell

Haearn, Eglwysfach

13 Cyngor Cymuned Ysgubor

y Coed 7.30 Yr Ystafell

Haearn, Eglwysfach

Sgwrs: 'Y Ffordd Gymreig'

(Dr Owen Roberts, Hybu

Cig Cymru) 7-8.30 Cletwr

14 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn,

Eglwysfach

Ioga ar eich eistedd 7-8.30

Cletwr

15 Sesiwn Nos Wener Steve

Eaves 8 Y Blac

Cwis 8 Wildfowler

16 Dal Ati 11-12 Cletwr

Cyngerdd Byw (Three

Legg'd Mare) 7.30-9.30

Cletwr

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont Gyrfa Chwist Dofednod

gyda raffl fawr a gwobrau
amrywiol

NEUADD GOFFA

TAL-Y-BONT

Nos Fercher 18 Rhagfyr

am 8 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad
neu'ch sefydliad yn
nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at
Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.com
01970 832478 o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o
Papur Pawb.

17 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu

Rehoboth 10 Beti Griffiths

Eglwys Llangynfelyn yn

Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel,

Eglwysfach 9.30 Cymun

Bendigaid

Eglwys Sant Pedr, Elerch

2.30 Hwyrrol Weddi

18 Merched y Wawr

Tal-y-bont a'r Cylch 'Jones a

Ginger'

20 Gweithdy: Hybu Imiwnedd

7-9 Cletwr

21 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn,

Eglwysfach

Gweithdy: 'Gwneud

Briwfwyd i'r Nadolig' (Jane

Guite) 7-8.30 Cletwr

Bingo 7.30 Wildfowler

22 Sesiwn Cyngor Gyrfaedd

(Megan o Cymru'n

Gweithio) 10yb-12 Cletwr

24 Bethel 10 Geraint Evans

Rehoboth 2 John Tudno

Williams

Eglwys Llangynfelyn yn

Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel,

Eglwysfach 9.30

Gwasanaeth Boreol

Clwb Gemau Bwrdd

Machynlleth ar daith 3-5

Cletwr

26 Cymdeithas Treftadaeth

Llangynfelyn 'Y Traddodiad

Plygain' (Rhiannon Ifans a

Trefor Puw) 7.30 Llanfach

Tenis Bwrdd 7 Yr Ystafell

Haearn, Eglwysfach

28 Gweithdy: 'Ffrindiau

Dementia a pherthnasoedd

iach' 2-4.30 Cletwr

Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn,

Eglwysfach

29 Cwis 8 Wildfowler

30 Ffair Nadolig 2 Neuadd

Goffa Tal-y-bont

'Lapio Amdani' 2.30-4

Cletwr

'Sioe'r Wyl i'r Fro' 5-6.30

Cletwr

RHAGFYR

1 Bethel 11.15 Uno yn

Nasareth

Nasareth 11.15 Bugail

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Fal a Gwyn. Y dylunydd
oedd Ceri. Y golygyddion ar
gyfer y rhifyn nesaf fydd
Phil a Megan
(gwynionydd@btinternet.com).
Y dyddiad cau yw 6 Rhagfyr a
bydd y papur ar werth ar
13 Rhagfyr.

Hen ffilmiau

Mae codi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020, wedi profi i fod yn waith pleserus dros ben. Gwireddwyd hyn eto, pan gawsom noson ddifyr yng nghwmni Roland a Bethan Davies, Dolcletwr. Tre'rddol, ar Nos Wener, 11eg o Hydref yn yr Ystafell Haearn, Eglwysfach. Daeth Roland a ffilm fud o eiddo ei ddiweddar fam o hanes yr ardal, ei chymeriadau, priodasau, a phlant Ysgol Taliesin, a dynnwyd yn yr hanner olaf o'r ganrif ddiwethaf. Diddorol oedd gwrandio ar y sylwebaeth ar y gwahanol ddigwyddiadau yn y ffilm. Diweddwyd y noson gyda raffl a phaned. Rhannwyd yr elw a throsglwyddwyd £115 at yr Eglwys leol, a £105 at yr Eisteddfod.

Croeso adre

Croeso adre o'r ysbyty i Dai Bond, Brodawel, Taliesin – braf clywed ei fod yn dod dros ei driniaeth ddiweddar yn dda.

Yn Seland Newydd

Braf yw clywed am ein pobl ifanc yn mentro i'r byd mawr. Dymunwn y gorau i Gerallt Jenkins, Ynyscreigiog, sydd ar hyn o bryd yn treulio chwech mis yn byw yn Seland Newydd. Mae yn gweithio gyda pheirianwaith yn Taumrunui, yng Ngogledd yr Ynys. Bydd yn siwr o elwa o'r profiad gwych, a bydd y teulu yn edrych ymlaen i gael storiâu cyffrous pan ddaw nôl gartref!

Cartrefi newydd

Dymuniadau gorau i Mark Egan a Claire a'u plant Rae a Harry, (heb anghofio Yogi y ci), wrth iddynt symud i'w tŷ newydd yn Bont-goch a enwyd yn Bwlch-y-Gwynt. Pob dymuniad da hefyd i Kara, Sam, Ralfi a Dyfi fach yn eu cartref newydd, Glanceulan, Tal-y-bont. Bydd mam-gu a dad-cu yn falch iawn o fod yn agosach atoch.

CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT
Cyngerdd Nadolig a Ffair Crefftau

£3 - oedolion
Plant am ddim
Yn gynnyrs paned a mins pet

Ffair Crefftau
Raffl
Cynnyrch Cartref
Tombola

Neuadd Goffa Tal-y-bont
09/12/2019
6.30 yh
Croeso cynnes i bawb



Pobl a Phethe



Priodas

Priododd Gareth Dennis a Dr Dina Jankovic yng Nghaeredin ar Ddydd Sadwrn 12 Hydref. Mae Gareth yn fab i Dr Peter a Ruth Dennis o Maesyfelin ac mae'r cwpl yn byw yng Nghaerefrog.

Merched y Wawr, Talybont a'r Cylch

Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Hydref ar nos Lun, Hydref 21ain a braf oedd gweld nifer o'r aelodau yn bresennol ynghyd â thair aelod newydd. Trefnwyd y noson gan Megan Mai ac Elizabeth Evans a chafwyd orig yng nghwmni Ruth Emily Davey a Margot Edwards o siop "Esgidiau Coch" yn nhref Machynlleth. Mae Ruth yn rhedeg busnes ei hun yn y dref ac yn byw ym mhentref Penegoes ac yn fam i ddau blentyn bach. Mae'n hyfforddi dau brentis yn ei siop/gweithdy a daeth un ohonynt, Margot o Abergynolwyn, gyda hi ar y noson. Mae Ruth yn gwneud esgidiau gan ddefnyddio lledr fel y brif elfen am ei fod yn gweddu i'r dim i'r traed, yn gallu plygu, yn ystywyth ac yn ymestyn gyda bob symudiad. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig gwisgo esgidiau cyfforddus, rhai sy'n ffitio'n dda i siap eich traed ac sydd wedi eu cynllunio i bara am flynyddoedd ac y gellir eu trwsio. Daeth a nifer o barau o wahanol esgidiau i'w dangos a chafwyd orig ddiddorol yn dotio ar y parau amrywiol a lliwgar. Beth amdani felly – par o 'sgidiau lliwgar, cyfforddus ar gyfer 2020! Rhaid cofio hefyd bod y 'Dolig yn nesau! Mwynhawyd y noson a dymunwyd yn dda i Ruth i'r dyfodol. Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Megan Mai a chafwyd paned a sgwrs cyn troi am adre.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Lun, Tachwedd 18ed yng nghwmni 'Jones a Ginger' – Croeso i chi ymuno â ni yn neuadd talybont am 7.30.



Gwobr i Bleddyn

Llongyfarchiadau i Dr Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont, ar ennill Gwobr Syr Ellis Griffith Prifysgol Cymru eleni am ei gyfrol *Pris cydwybod: T. H. Parry-Williams a Chysgod y Rhyfel Mawr*. Cyflwynir y wobwr yn flynyddol o Gronfa Ellis Griffith am y gwaith gorau yn Gymraeg ar lenorion Cymraeg neu ar arlunwyr Cymreig neu grefftwyr Cymreig a gyhoeddwyd yn ystod y tair blynedd galendr flaenorol.

Golff

Llongyfarchiadau i Steffan Foulkes a David Griffiths ar ennill Cwpan Harry Woolam ar gwrs golf Borth ac Ynyslas ar 8 Medi. Cystadleuaeth i barau yw hon ac fe lwyddodd Steffan a David i sgorio 48 pwynt sef pedwar yn fwy na'r ail bâr.

Hanner marathon

Llongyfarchiadau i Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont, ar lwyddo i gwblhau Hanner Marathon Caerdydd ar 6 Hydref.

Penblwydd arbennig

Gobeithio fod Ellyw Jenkins, Fferm Tanrallt, Tal-y-bont, wedi mwynhau'r dathlu ar ei diwrnod pen-blwydd arbennig.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Gethin Roberts a'i deulu, Maesyderi, Tal-y-bont, ar farwolaeth ei fab Gavin. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Gwener 25 Hydref. Bydd y teulu, ei holl ffrindiau a chymdogion yn gweld ei golli'n fawr.

Clwb Ffermwyr Ifanc

Llongyfarchiadau i Richard Jenkins a ddaeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth ATV yn y Diwrnod Gwaith Maes y sir a gynhaliwyd ar 28 Medi. Cafodd nifer o aelodau newydd gyfle i farnu stoc yn ystod y dydd.

Llety o safon uchel

Llongyfarchiadau i Nerys Roberts, Maesyderi, Tal-y-bont, a thîm rheoli Gwesty Cymru, Aberystwyth, ar ennill y wobwr am y llety gorau gan Twristiaeth y Canolbarth.

Cyn i Nerys gael ei phenodi yn Reolwr y Bwyty a Gwesty Cymru bron i bedair mlynedd yn ôl bu'r gweithio yng nghaffi Lilly's yn y dre am tua deng mlynedd. Yn ystod y cyfnod yna bu'n ddigon ffodus i allu safio digon o arian a chael amser bant i fynd i deithio o gwmpas Ewrop, Awstralia, Seland Newydd, Fiji ac America. Ond roedd teulu a gwreiddiau yn bwysig iawn iddi ac yn ôl y daeth!

Mae gwaith Nerys, o ddydd i ddydd, yn amrywio o oruchwylio'r gwesty a'r bwyty i gyd, a rheoli pob adran – blaen y tŷ, glanhawyr, porthorion, cogyddion i faterion cynnal a chadw ac mae'n mwynhau'r gwaith yn fawr iawn. Mae'n canmol y gefnogaeth a gafodd gan Huw a Beth y perchnogion a'r holl staff (presennol a blaenorol).

Mae pob diwrnod yn ei swydd yn wahanol ac mae'n dal i ddysgu rhywbeth newydd bob dydd ac mae cael cwsmeriaid yn gadael y bwyty neu'r gwesty yn hapus yn ei gwneud hithau'n hapus.

Pob dymuniad da i ti Nerys i'r dyfodol ac yn arbennig ar gyfer 20 Mehefin, 2020, pan y byddi di'n priodi ac yn cychwyn pennod newydd arall yn dy fywyd.



John yn 80



Parti gyda'r teulu neu swper mewn bwyty yw dewis y rhan fwyaf o bobl sy'n dathlu penblwyddi arbennig fel arfer, ond dewisodd John Roberts, Felin Llifio, Tal-y-bont ffordd wahanol o ddathlu ei benblwydd yn 80 oed sef teithio 650 km ar feic drwy Ffrainc a gwersylla! Bu raid i'w wraig druan Jill gytuno i gadw cwmni iddo.

Roedd y daith yn dilyn llwybrau ar bwys camlesi a hen reilffyrdd segur. Teithiwyd hefyd ar rai ffyrdd ond nid oedd hyn yn broblem gan fod gyrrwyr Ffrainc yn parchu seiclwyr.

Y daith oedd St Malo – Nantes – Angiers – Suisse Normande – Oustreham. Deri, eu mab, a yrrodd hwy i Portsmouth, gan eu holi, cyn eu gadael, ble oeddynt wedi cuddio eu hewyllys!

Roedd dau feic rhydlyd, pabell fechan, cardiau plastig llawn ewros a llawer o bethau amrywiol wedi eu clymu ar y beiciau, yn ddigon i'w cynnal ar yr antur.

Prif sialensau'r daith oedd storm 'Miguel' a chwythodd y ddau drosodd a choed wedi cwympo ar draws y llwybrau ac hefyd y gallu i sefyll yn syth yn y boreau wedi cropian allan o'r babell!


Ychwanegodd dwy ddamwain, ychydig o waed a bagiau'n datgymalu at yr hwyl!

Achosodd Ffraneg Jill peth dryswch pan ddwedodd fod John yn 'vingt quatre' (24) yn lle 'quatre ving' (80).

Ystyr 'Suisse Normande' yw bryniau, ond erbyn hynny roedd y ddau yn llawer mwy ffrit. Roedd chwifo'r faner yn helpu ac er i Gymru ennill y 'Gamp Lawn' mae nhw'n dal i'n caru ni draw yno.

Vive La France

Ysgol Tal-y-bont



Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd



Diwrnod Shwmae Su'mae



Rhodd i'r banc bwyd



Cwrdd diolchgarwch

Ysgol Tal-y-bont

Gwasanaeth Diolchgarwch

Eleni, cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch yng Nghapel Bethel. Hyfryd oedd croesawu cymaint o rieni a ffrindiau'r ysgol i'r gwasanaeth a gweld y capel mor llawn. Cafwyd nifer o eitemau difyr gan y plant a diolch unwaith eto i Mrs Falyri Jenkins am ei holl gymorth. Penderfynodd y Cyngor Ysgol gasglu bwyd tuag at elusen Jubilee Storehouse sef banc bwyd Aberystwyth. Diolch yn fawr iawn i bawb ddaeth i gefnogi ac a gyfrannodd at yr elusen ac i'r plant am eu gwaith caled.

Bore Coffi Macmillan

Ddiwedd mis Hydref roedd bwrllwm hyfryd yn Neuadd Tal-y-bont. Cynhaliodd y Cyngor Ysgol fore llwyddiannus iawn i godi arian tuag at elusen Macmillan. Yn ogystal â llond gwlad o gacennau roeddent wedi trefnu gweithgareddau fel enwi'r tedi a chyfri sawl losin oedd yn y jar. Llongyfarchiadau mawr iddynt am godi bron i £300 at yr achos. Hoffai'r Cyngor Ysgol ddiolch yn fawr i bawb am gefnogi ac am gyfrannu cacennau at y digwyddiad.

Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion

Braf iawn oedd cael croesawu Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion i'r ysgol i drafod gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Cawsant gyfle i rannu eu barn a'u syniadau creadigol am ddarpariaeth ieuenctid symudol mewn ardaloedd gwledig y sir.

Diwrnod Shwmae Su'mae

Mae'r Criw Cymraeg wedi cael eu hethol am y flwyddyn ac wedi mynd ati'n syth i roi her i'r dosbarthiadau. Cawson nhw dasg bwysig iawn i ddathlu diwrnod Shwmae Su'mae sef gwrandio'n astud ar blant yn eu dosbarthiadau er mwyn dewis pwy fyddai'n ennill gwobr am yr ymdrech orau i siarad Cymraeg drwy'r dydd. Llongyfarchiadau i bawb am eu hymdrech a da iawn Ben, Evie, Tomos a Ieuan am ennill llyfr neu dedi Seren a Sbarc! Daliwch ati!

Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd

Daeth ymwelydd pwysig iawn i'r ysgol ddechrau'r mis i ddathlu diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd. Ar ôl yr holl gyffro wrth i Gymru guro Fiji yng Nghwpan rygbi'r byd, roedd un uchafbwynt arall. Daeth Mistar Urdd i'n gweld ni yn yr ysgol! Roedd wedi dod i'n hatgoffa o'r holl weithgareddau sy'n cael eu trefnu gan yr Urdd ac i ddiolch i ni am gefnogi wrth godi arian drwy werthu cacennau a phaentio wynebau yn ystod y diwrnod.

Sbridiri!

Ar ôl yr holl hwyl yn ymarfer y caneuon yn y dosbarth ers wythnosau, daeth y diwrnod mawr. Roedd y bws yn llawn cyffro wrth i'r Cyfnod Sylfaen deithio draw i Ysgol Penglais. Cawsom brynhawn wrth ein boddau yn dawnsio a chanu nerth ein pennau gyda Mistar Urdd a Sam Ebenezer. Diolch i'r Urdd am drefnu prynhawn hyfryd.

Ysgol Iach

Yn ystod mis Hydref bu blwyddyn 5 a 6 yn mynychu gweithgareddau aml-sgiliau a drefnir yn flynyddol gan Adran Chwaraeon Cyngor Sir Ceredigion ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cawsant hwyl yn cael blas ar wahanol chwaraeon gan gynnwys dawnsio, rygbi, criced, hoci a thennis.

Rhodd

Hoffem ddiolch o galon i Mrs Falyri Jenkins am ei rhodd hael iawn i'r ysgol. Mae'r plant wrth eu boddau gyda llond gwlad o lyfrau newydd sbon ac yn edrych ymlaen yn eiddgar i'w darllen.

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Cardi yn y Cabinet

Pan ddaeth copi o gyfrol John Morris, *Cardi yn y Cabinet* drwy'r drws gyda chais i'w hadolygu derbyniais y gwahoddiad yn syth, am resymau amlwg. Yn gyntaf, mae cysylltiad gan y cyn Aelod Seneddol â'm pentref genedigol, sef Llandysul. Mae Margaret ei wraig yn adnabod fy nheulu ers blynnyddoedd a'r tro diwethaf i mi ei chyfarfod fe gyfeiriodd gyda balchder at y berthynas honno.

Yr ail reswm yw fy niddordeb mewn gwleidyddiaeth. Mae gennyf radd yn y pwnc ac yn ystod y blynnyddoedd y bu John Morris yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr oeddwn innau yn gweithio'n llawn amser i Blaid Cymru ac yn profi'n uniongyrchol yr ymdrechion clodwiw a wnaed gan wleidyddion y cyfnod, megis yntau, i sicrhau datganoli i Gymru.

Mae'r gyfrol fer hon yn cychwyn, fodd bynnag, ym mro enedigol yr awdur yng Nghapel Seion ac Aberffwrdd, a'r hyn a roddir i ni yw atgofion yr awdur o'r digwyddiadau arwyddocaol ar hyd y daith o'r dechreuadau syml fel un o 'blant Abernant' i binaclau grym San Steffan. Cawn wybod sut aeth un a addysgwyd yn Ysgolion Penllwyn ac Ardwyn a Phrifysgol Cymru Aberystwyth i fod yn aelod Seneddol Aberafan, Twrnai Cyffredinol y Deyrnas Gyfunol, Cwnsler y Frenhines ac aelod o'r Cyfrin Gyngor, Marchog a Marchog y Gardas, ac yna'n Arglwydd Aberafan a Cheredigion.

Cyn mentro i'r maes gwleidyddol, fodd bynnag, bu John Morris yn gweithio i Undeb Amaethwyr Cymru ar y dechrau'n deg, a bydd llawer yn cofio sut y bu iddo, ymhen blynnyddoedd, ddefnyddio ei safle fel Gweinidog i sicrhau cydnabyddiaeth swyddogol i'r Undeb mewn trafodaethau gyda'r llywodraeth.

Ceir llawer o enghreifftiau yn y gyfrol o ddigwyddiadau tebyg lle mae'r awdur yn defnyddio ei ddylanwad i hyrwyddo achosion sy'n agos at ei galon, ac er lles ei etholwyr. Bu'n allweddol yn sicrhau cefnogaeth y Blaid Lafur i sefydlu S4C ac ef a fu'n gyfrifol ar ran y Blaid Seneddol Gymreig am lunio dogfen yn dadlau o blaid rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, a hynny yn 1962.

Diddorol yw darllen ei sylwadau personol am rai o wleidyddion yr oes, yn enwedig arweinyddion y Blaid Lafur. Cawn hefyd gipolwg ar weithrediadau mewnol y llywodraeth, yn enwedig yn ystod ei gyfnod hir fel Twrnai Cyffredinol pan oedd Tony Blair yn Brif Weinidog. Ef oedd â'r cyfrifoldeb dros roi sêl bendith cyfreithiol i weithrediadau lluoedd arfog Prydain ar faes y gad, ac mae rhai o'r canllawiau a chynseiliau a osodwyd ganddo yn dylanwadu ar ddulliau gweithredu'r Twrnai Cyffredinol hyd y dydd heddiw.

Teg nodi serch hynny taw at y gyfrol Saesneg *Fifty Years in Politics and the Law* a gyhoeddwyd yn 2011 y dylid troi os am wybodaeth fanwl o droeon gyrfa John Morris. Rhyw Stori Sydyn o lyfr yw'r fersiwn Gymraeg mewn cymhariaeth ond wedi ei baratoi mewn arddull gartrefol sy'n debycach i gyfrol o atgofion na hunangofiant manwl. Hefyd, byddai nodi union ddyddiad rhai o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt wedi bod o gymorth i'r darllenydd er mwyn medru olrhain trefn gronolegol y digwyddiadau.

Fodd bynnag, hollti blew yw hynny o'i gymharu â'r gymwynas a wnaeth yr awdur wrth roi cip i ni o weithrediadau'r sefydliad Prydeinig a hynny mewn cyfrol hylaw. Yr hyn a ddaw i'r amlwg wrth glywed yr hanesion difyr, yw iddo wneud cymwynas hefyd a'i wlad, trwy geisio ar bob achlysur sicrhau tegwch i Gymru. Mae'n perthyn i'r genhedlaeth honno o wleidyddion oedd wedi gwreiddio'n ddwfn yn niwylliant a gwerthoedd cefn gwlad Cymru ac a gyrhaeddodd uchelfannau llywodraeth Prydain. Tybed os y gwelwn eu tebyg eto? Os na, yna bydd y gyfrol fach hon yn gofnod gwerthfawr o oes sydd wedi dod i ben.

**John Morris –
Cardi yn y Cabinet
Y Lofa, £7.99**

Phil Davies

GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau,
Tirlinio a Chwynu
Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a
phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816

mynachgarden@yahoo.com

Heio 'Na!

Y tro yma rydyn ni'n ymweld â'r Unol Daleithiau i ddarllen am hynt a helynt Glenys Stocks (neu Glenys Neuadd Fawr i ni yn ardal Tal-y-bont).

Mae gen i lawer o atgofion hapus iawn o dyfu lan yn Nhal-y-bont yn y 70au a'r 80au. Er i mi gael fy ngeni yn Kilburn, Llundain (lle roedd fy rhieni'n berchen siop a rownd laeth), symudon ni i Neuadd Fawr Tal-y-bont pan oeddwn yn flwydd a hanner felly merch o Dal-y-bont ydw i yn y bôn. Mae Tal-y-bont yn gymuned glos a chymdeithasol iawn ac achlysur mawr y flwyddyn i fi wrth gwrs oedd y Sioe. Rwy'n cofio trio'n lwc wrth gystadlu yn adran y plant yn y Babel Fawr ar y coginio a'r celf a chrefft - a chael llwyddiant ambell i dro. (gw. y llun).

Roedd cystadlu yn ran o'r profiad yn yr ysgol gynradd hefyd - canu yn y côr, y parti cerdd-dant, y dawnsio gwerin ac ati. Ond uchafbwynt tymor y Gaaf i fi yn yr ysgol oedd y panto Nadolig. Rwy'n cofio'n glir chwarae rhan "Gretel" gyda Justin Manley yn chwarae ran "Hansel".

Roeddwn yn chwarae'r soddgrwth a phan yn Ysgol Penweddig cefais gyfle i deithio i'r Almaen gyda Cherddorfa Ceredigion. Wnes i barhau i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn fy ardegau a hynny gydag Aelwyd Tal-y-bont (Harri a Medi James oedd yr Arweinwyr) ac rwy'n cofio cael lot fawr o hwyl yn yr aelwyd yn enwedig y gweithgareddau awyr agored.

Roeddwn yn brysur iawn rhwng pob peth ond yn fy ardegau bues i'n gweithio ar y penwythnosau a'r gwyliau ym mwyty'r Hen Efail gyda Gwen a Mair Tanrallt. Cafwyd lot fawr o sbort tra'n gweithio yno!



Ar ôl graddio fel Therapydd Galwedigaethol yn Rhydychen a gweithio yng Nghaerdydd a Llundain, penderfynais fynd i weithio i America. Off â fi yn 1994, gyda chytundeb gwaith am flwyddyn a hanner i Ocala Florida! Mi gymerodd sbel i ddod dros y "culture shock"! Roedd popeth gymaint fwy o faint - y prydau bwyd, y ceir a hyd yn oed y pryd! Yn fy amser sbâr byddwn i fy ffrindiau yn mwynhau campio ar bwys y 'natural springs', canwio (gan drio cadw draw wrth yr alligators a'r nadroedd dŵr), a mentro ar 'sky diving'. Rwy'n dal i fwynhau gweithgareddau awyr agored ac wedi rhedeg marathon neu hanner marathon ym Miami, Washington D.C. San Francisco a Disney World Orlando a reidio beic o Miami i Key Largo.

Tra'n byw yn Ocala cwrddais â fy ngŵr Glenn. Roedd e'n gweithio i'r U.S. Coast Guard (cangen o luoedd milwrol America). Fel rhan o'i waith roedd gofyn iddo symud 'duty station' bob rhyw dair mlynedd. Felly dros yr ugain mlynedd ddiwetha rydym wedi symud naw gwaith ac wedi byw mewn nifer o lefydd gwahanol iawn: Cape May NJ, Orlando ac ardal Fort Lauderdale FL, New London CT, Washington D.C., a Napa CA. Wrth symud o le i le rydym bob amser wedi gyrru. Gallwch ddychmygu roedd gyrru o Florida i California gyda dau o blant a chi yn y car yn brofiad cofiadwy! Gan ein bod wedi byw mewn sawl talaith wahanol rydym hefyd wedi profi pob math o dywydd: corwyntoedd yn FL, lluwchwynt yn D.C. a daeargrynfeydd yn D.C. a CA. Roeddem newydd symud i fyw i Napa CA yn 2014 pryd digwyddodd tirgryniad oedd yn mesur 6.0 a hynny yng nghanol nos! Hwnnw oedd y profiad gwaetha o ran tywydd, yn fy meddwl i, gan fod dim rhybudd!

Mae gen i ddau o blant, Megan (19 oed) a Tristan (15 oed). Mae Tristan yn ei ail flwyddyn yn yr ysgol uwchradd (high school) ac y mae Megan yn astudio seicoleg yn Florida State University yn Tallahassee. Ar hyd eu hoes, maent wedi gorfod addasu i fyw mewn gwahanol lefydd, sydd wedi bod yn antur ond ar yr un pryd, maent wedi gorfod newid ysgol, ffariweliu â ffrindiau ac ati, pob rhyw dair mlynedd. Mae hyn yn hollol wahanol i'm magwraeth i yn ardal Tal-y-bont.

O'r diwedd rydym wedi setlo lawr a hynny yn St. Augustine Florida gan fod Glenn wedi ymddeol. A dweud y gwir, apêl ardal St. Augustine yw ei fod yn fy atgoffa rhyw ychydig o ardal Aberystwyth - mae'n dre glan môr, mae coleg yn y dre ac hefyd castell o'r enw 'Castillo de San Marcos'. Mae llawer o hanes yma hefyd gan mai hi oedd y ddinas gyntaf i gael ei sefydlu yn America. Mae'n rhaid dweud mod i'n teimlo'n gartrefol iawn yma yn St. Augustine ond rwy'n dal i ddychwelyd i Dal-y-bont yn gyson oherwydd y berthynas glos sydd gennyf gyda fy nheulu a'm ffrindiau yn yr ardal.

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Hydref 2019

Cychwynwyd cyfarfod Mis Medi ar Nos Lun, 28 Hydref 2019, gyda'r Cadeirydd, Cyng David Jones, yn ymestyn croeso cynnes i pawb.

Ymddiswyddiad Cyng Sue Jones-Hughes

Darllenodd y Clerc llythyr oddi wrth Cyngorydd Sue Jones-Hughes yn egluro ei fod hi yn ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd ysgrifennu llythyr i Sue yn diolch iddi am ei gwasanaeth ar y Cyngor. Cytunwyd hefyd y bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglyn â'r broses o lenwi'r sedd wag ar y Cyngor.

Materion y Fynwent

Cafwyd diweddariad ar faterion y fynwent yn dilyn cyfarfod yr Is-Bwyllgor yn ystod Mis Hydref. Eglurodd y Clerc ei fod wedi bod wrthi yn tacluso recordiau'r fynwent a chadarnhaodd fod yr Is-Bwyllgor wedi cywiro ac addasu y geiriau ar gyfer y ddau arwydd newydd ar gyfer y mynediad i'r fynwent. Cytunwyd gohirio y cynllun ar gyfer ymestyn y fynwent am y tro oherwydd fod y galw am feddi newydd wedi bod yn isel iawn yn ystod y blwyddyn diwethaf.

Cynllunio

Cadarnhaodd y Clerc nad oedd unrhyw geisiadau cynllunio newydd i'w hystyried.

Seremoni Sul y Cofio

Cafwyd cadarnhad gan Cyng Megan Mai o'r trefniadau ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio. Mi fydd yna wasanaeth yn agored i bawb yn y Neuadd Goffa am 10:45 yn y bore. Cytunwyd y bydd y Clerc yn mynd ati i lunio poster i addas.

Seremoni Goleuo y Nadolig

Cafwyd cadarnhad o'r trefniadau tuag at Seremoni y Goleuo ar prynhawn Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2019. Mi fydd y gwasanaeth yn cychwyn yn y Neuadd Goffa am 4:00 o'r gloch. Cytunwyd y bydd y Clerc yn cysylltu gyda phawb i gadarnhau y trefniadau.

Materion Ffyrdd

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau sydd angen sylw ar y ffyrdd yn y gymuned ac ychwanegwyd sawl eitem newydd sydd angen sylw. Cytunwyd i ysgrifennu at Ken Skates AS ynglyn â phryderon am gyflymder traffig ar y ffordd fawr sy'n dod i fewn i bentref Tal-y-Bont a chytunwyd i gysylltu gyda'r Adran Cefnffyrdd ynglyn â'r angen i roi sylw i sawl gratin ar hyd ochr y ffordd fawr.

Materion Eraill

Cytunwyd fod Mr Terry Williams wedi gwneud gwaith da gyda'r ffens newydd ar hyd ochr y Cae Bach yn Nhal-y-bont a chytunwyd i roi sylw i'r problemau gyda'r twnel yn y Cae Chwarae yn Bont-goch. Trafodwyd safle newydd i'r fainc ar Gomin Braich Garw lle mae'r llwybr ceffyl yn dod i lawr i'r ffordd. Mi fydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor ar Nos Lun, 25 Tachwedd 2019.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002

Teyrnged

Y Parch. W J Edwards

Priodol yw talu teyrnged i un a fu'n gefnogol iawn i *Papur Pawb* dros y blynyddoedd, sef y Parch W J Edwards, Bow Street, a fu farw ddechrau Hydref.

Ef fyddai'n llunio llawer o'r teyrngedau i drigolion Taliesin a'r cylch yn ein papur bro a chyfrannodd nifer o erthyglau difyr ar fro ei febyd.

Ganed ef ar 29 Mehefin 1936 yn fab i Jennie Eleanor a Thomas James Edwards. Ymfalchiai yn y fagwraeth a gafodd yn Lon Isaf, Taliesin, gan ystyried ei hunan yn 'un o blant y Figyn'. Manteisiodd ar y cefndir crefyddol amhrisiadwy a gafodd yng nghapel Rehoboth. Cyfeiriodd unwaith yn *Papur Pawb* (rhifyn Hydref 2012) iddo '...fynychu'r Ysgol Sul, Band of Hope, y Gymdeithas Lenyddol ac oedfaon y Sul, rwy'n dra dyledus i'r fagwraeth Gristnogol ardderchog a gefais yn y capel.'

Cafodd addysg werthfawr yn Ysgol Llangynfelyn cyn i'r teulu symud i Bow Street ac o hynny allan adwaenid ef gan ei gyfeillion fel 'Bil Bow Street'. Wedi cyfnod yn Ysgol Ramadeg Ardwyn, aeth i weithio i siop ddillad Lampeter House, Aberystwyth, ac yna i wasanaethu'r darllenwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ganol yr 1960au aeth i Goleg y Bala ac yn ddiweddarach i'r Coleg Coffa er mwyn paratoi ar gyfer y weinidogaeth.

Daeth yn weinidog yn Llanuwchllyn ym 1967, yn dilyn ymadawiad y Parchedig Gerallt Jones. Roedd yn weinidog ar holl fro Llanuwchllyn, gan gynnwys eglwysi yr Hen Gapel, Carmel, Peniel, Glanaber, Ysgoldy, Cynllwyd, heb sôn am eglwys yn Rhosygwalia. Roedd yn falch iawn fod yr eglwys fro yn cynnwys Annibynwyr, Methodistiaid a Bedyddwyr. Wedi 25 o flynyddoedd yn Llanuwchllyn, symudodd ym 1992 i Gapel y Priordy yng Nghaerfyrddin a chapeli eraill yr ardal. Ymddeolodd yn ôl i Bow Street gyda'i wraig Gwenda ddechrau'r ganrif hon ac yn y cyfnod hwn bu'n weinidog rhan amser yn y Graig, Machynlleth, ac Aberhosan.

Yn ogystal â'i gyfraniadau crefyddol, bu'n weithgar dros yr iaith, heddychiaeth, yr Eisteddfod Genedlaethol a llu o sefydliadau eraill. Roedd yn genedlaetholwr pybyr a di-syfl ei farn.

Cydymdeimlwn â Gwenda a'i deulu oll yn eu colled.

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Buyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

Blac

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Y Llew Du

Yn yr olaf yn y gyfres ar dafarn dai lleol trown ein golygon at y Llew Du, Tal-y-bont. Y tro hwn cefais gymorth gan yr hanesydd lleol Hefin Llwyd. Er nad yw Hefin yn byw yn Nhal-y-bont bellach, mae'n parhau i berchen ar wybodaeth eang ar yr ardal hon a dwi'n ddiolchgar iddo am ei gyfraniadau at hanes y dafarn arbennig hon.

O'r ddwy dafarn yn Nhal-y-bont, y Llew Du yw'r hynaf o dipyn. Yn wreiddiol ffermdy oedd ar safle'r Llew Du presennol ond gall bod teithwyr yn galw yno ar y ffordd o Aberystwyth i Fachynlleth yn yr 17eg ganrif a chyn hynny i orffwys ceffyl neu i aros dros nos.

Gwyddom fod y ffermdy ar dir Gogerddan ac mae'n debygol mai'r tenantiaid ar ddechrau'r 18fed ganrif oedd Jenkin Morgan gyda David Morgan (ei fab efallai) wedi hynny. Yn wir aelodau o deulu yn dwyn yr enw Morgan oedd y tenantiaid am ugeiniau o flynyddoedd hyd at ail hanner y 19eg ganrif.

Mae'r cyfeiriad penodol cyntaf at y dafarn yn dyddio o 1751 pan y'i defnyddiwyd i gynnal *Inquisition Post Mortem*. Dywedir yn y cofnodion bod tri achos wedi'u cynnal yn y flwyddyn honno yn 'House of David Morgan, Tal-y-bont, Llanfihangel Genau'r-glyn, innholder'. Roedd un dyn anffodus wedi ei ladd mewn siafft fwyn a dau arall wedi boddi yn yr afon Castell.

Ddiwedd y ddeunawfed ganrif daeth cerdded drwy Gymru yn boblogaidd ymhlith rhai Saeson, yn arbennig gan fod teithio ar gyfandir Ewrop yn anodd o ganlyniad i chwyldro a rhyfela. Yn eu plith roedd gŵr cefnog o'r enw Syr Richard Colt Hoare (1758-1838) a oedd â diddordeb mawr mewn hynafiaethau.

Ar ei daith rhwng Aberystwyth a Machynlleth yn haf 1796 disgrifiodd y dafarn yn ei ddyddiadur (LIGC 16989C) fel a ganlyn:

Tan y bont (sic) is a small village with a respectable alehouse, or Country Inn, an excellent Baiting place, and upon emergency, if occasion requires will furnish a comfortable Bed to a weary and benighted Traveller, who has a Twelve or a Seven mile stage before him.'

[Cyfeiriad at bysgota yw'r gair 'baiting' yn yr achos hwn.]

Er y gwyddom fod tafarn ar y safle, ni ddaethom o hyd i'r enw penodol 'Black Lion' neu 'Llew Du' tan 1814 pan ymddangosodd hysbyseb ym mhapur newydd y *Cambrian* am gyfarfod yno:

'...that we will attend at the house of John Morgan, Innkeeper, known by the sign of the *Black Lion*, situate at *Talybont*, in the parish of Llanfihangel Generglyn, on Friday, the 2nd day of August next, at eleven o'clock in the forenoon,...

Defnyddiwyd sawl enw ar y dafarn yn y 19eg ganrif gan gynnwys Ffermdy Tal-y-bont, Tŷ Mawr, Gogerddan Arms [1864], ac wrth gwrs y Black Lion Inn (FAMILY AND COMMERCIAL HOTEL) a'r Llew Du. Heddiw mae'r perchnogion wedi defnyddio'r enw 'Y Blac' yn eu llenyddiaeth farchnata.

Yn gynnar yn y 19eg ganrif defnyddid yr esgynfaen y tu allan i'r Llew Du gan Rhys Davies (1777-1847), wrth iddo bregethu'r efengyl i drigolion y cylch ar y patsyn glas. Roedd Rhys Davies yn bregethwr annibynnol ecsentrig oedd yn cadw ysgol ym mhentref Pennal ac adwaenid ef fel 'Y Glun Bren' gan fod ganddo goes bren. Dywedir amdano: '...gan fod Rhys yn rhyfedd o wresog a phoeth yn ei bregethau, daeth lliaws i wrando', a sefydlwyd achos yr annibynwyr yn y pentref yn 1803.

John Morgan oedd y tafarnwr yn y cyfnod hwnnw a cheir yn y wasg gyfeiriad at farwolaeth sydyn ei wraig, Elizabeth Morgan, ym mis Mai 1812. Adroddwyd yn y *Carmarthen Journal*: 'Apparently in health and spirits about a minute previous to her being found dead in bed. She was



Y Patsyn Glas, Tal-y-bont, gyda'r Llew Du ar y dde, tua 1885

truly charitable, and greatly beloved in her neighbourhood.'

Tua'r cyfnod hwn codwyd yr adeilad presennol. Dyma ddisgrifiad ohono gan arbenigwyr pensaernïol:

'Mae pensaernïaeth y Llew Du yn dangos rhai nodweddion neoglasurol o'r cyfnod Sioraidd hwyr a Fictoriaidd cynnar. Mae'n debyg iddo gael ei adeiladu rhwng diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r cynllun cymesur, yn arbennig ei ffyrntiad yn ddymunol i'r llygad. Mae'r fynedfa drawiadol yn ganolbwynt i'r ffenestri Normanaidd/Gothig gyda'r bwâu cerrig-beddau yn adlewyrchu nodweddion traddodiadol ffenestri capeli Cymreig.'

Bu John Morgan fyw i oedran teg gan farw'n 80 oed ym 1838. Erbyn hynny ei fab Morgan Morgan (1793-1848) oedd y tafarnwr. Roedd brawd Morgan Morgan, David Morgan, yn briod â Sophia a oedd yn perthyn i deulu Maesnewydd. Yn y cyfnod hwnnw bragwyd cwrw ym Maesnewydd ac mae cyfeiriad yn llyfr cyfrifon y bragdy at Morgan Morgan, y Llew Du, yn prynu 12 brag gwerth £5 a 2 swllt ym 1835.

Bu farw Morgan Morgan ym 1848 ac, yn ôl cyfrifiad 1851, ei weddw, Margaret, oedd yn cynnal y dafarn er y cyfeirir ati fel ffermwraig yn hytrach na thafarnwraig.

Ym 1851 caniatwyd trwydded saith niwrnod i'r Llew Du am y tro cyntaf.

Yn y rhifyn nesaf ceir hanes y dafarn o ail hanner y 19eg ganrif hyd heddiw.

GJ a HLL



Syr Richard Colt Hoare

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH 24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Heol Y Ddŵl, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE www.midwalesstorage.co.uk

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



Daniel ac Osian yn eu dillad lliwgar

Sioe Ffasiwn

Cafwyd noson llawn hwyl, ffasiwn a phrosecço i godi arian at Gronfa Leol yr Eisteddfod 2020, a Chylch Meithrin Talybont. Roedd nifer o fenywod y pentref wedi mentro lawr y 'catwalk' yn ddillad o Lan Lofft, Machynlleth a Duet, ond sêr y sioe roedd plant cyfnod sylfaen a'r Cylch, yn edrych yn hynod o giwt mewn dillad o Ddoti a Chelt. Fel bonws o'r noson mae nifer o wŷr y pentref nawr yn gallu hawlio bod nhw'n briod gyda model!

Gwnaed elw o dros £700 i'w rannu rhwng y Cylch Meithrin a Chronfa leol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.



Helena



Cathryn

Diwedd cyfnod

A gafodd holl sietynnau ardal Papur Pawb eu torri eleni? A yw'r sietynnau yn y cylch mor daclus â'r blynyddoedd a fu? A yw'r gwasanaeth cystal ag erioed? A ydyn ni'n cael ein plesio wrth deithio lonydd ein hardal?

Oherwydd iddo ddod i oedran yr addewid a chael cyfnod o salwch bu rhaid i Brian Jones, Penlon 'roir tractor yn y to', a dyna'r rheswm am y cwestiynau ar y dechrau. A ydyn ni nawr yn gweld eisiau Brian?

Bu Brian wrthi am bedwar deg o flynyddoedd di-dor yn cynnig gwasanaeth torri sietyn ac aredig yn nalgylch Papur Pawb ac ymhell tu hwnt. Yn wreiddiol byddai'n gweithio ar ei liwt ei hunan ar ôl gwneud diwrnod o waith yn y Fridfa, Gogerddan ond wedi ymddeol 'torri a throir' oedd ei waith tan iddo benderfynu rhoi'r gorau iddi yn gynharach eleni.

Cafodd Brian ei eni ym Mhen Rhiw, ochr isaf y pentref o fewn clyw y Leri. Yn y tŷ dwy ystafell wely roedd pump o blant a'u rhieni yn byw. Cymerodd ewythr o ffermwr, Lewis Rhyd-yr-onnen drugaredd arnynt a phrynu tŷ iddynt ym Mhenlon pan oedd Brian yn saith mlwydd oed, nid yw erioed wedi byw unman arall. Ymhell cyn dyddiau'r teulu ym Mhenlon roedd yn siop i gigydd gyda'r lladd-dy mas y bac mewn sied digon o faint i un fuwch! Bugail ar ochrau Pumlumon oedd tad-cu Brian, cyn troi at waith yn y fforest roedd tad Brian yn was fferm felly mae trin y tir yn rhedeg yn y teulu o un genhedlaeth i'r llall.

Ym 1965, wedi addysg yn ysgol y pentref a Dinas, aeth Brian i'r WPBS, Gogerddan ac iddyn nhw bu'n gweithio drwy gydol ei oes.

Gweithio yn gyntaf yn y tai gwydr yn potio a rhoi dŵr cyn symud i'r gerddi blodau. Ond pan gyrhaeddodd dwy ar bymtheg oed roedd yn ddigon hen i yrru tractor a dyna ddechrau ei yrfa. Saith tractor Massey Ferguson oedd yna bryd hynny, pob un yn goch. Newidiwyd y rheolwr a'r tractorau i John Deere ac Unimogs gyda Brian yn bennaeth y gyrwyr.

Gyda llaw ei enw yn y gwaith oedd BIG B, am resymau amlwg!

Pan oedd tua thri deg brynodd tractor er mwyn gweithio ar ôl oriau gwaith ar ei liwt ei hun. Dechreuodd drwy aredig llechweddi serth, mor serth fel na fyddai neb arall yn ystyried mentro, mor serth mewn ambell fan olwynion ôl y tractor yn unig oedd ar y ddaear!

Aeth ei enw da o ben i ben a chynyddodd y gwaith tan roedd ganddo waith ar ryw hanner cant o ffermydd naill ai'n aredig neu'n torri sietynnau ac ambell dro yn gwneud y ddau beth. Gweithiai Brian ar ffermydd o Eglwysfach yn y gogledd i Lanrhytud yn y de ac mor bell â Phont-ar-fynach a Phonterwyd yn y dwyrain. Ger y pentref olaf roedd y contract mwyaf i dorri eithin, ysgall a dail poethion cyn chwistrelli ac aredig er mwyn hau. Nid oedd pob darn o waith mor fawr, yn ei ddydd bu'n aredig, llyfni a hau un neu ddau gae pêl droed yn y cylch.

Oherwydd adar yn nythu dim ond rhwng y misoedd Medi a Chwefror mae deddf gwlad yn caniatáu torri sietynnau, golyga'r gwaith yma bod y pen yn troi i'r chwith. Wrth aredig rhaid troi'r pen i'r dde felly dros y flwyddyn gyfan mae'r gwddw yn cael balans a chwarae teg! Pwysleisia Brian nad yw erioed wedi dinistrio nyth wag am nad yw'r adar byth yn nythu yn y tyfiant newydd gwan bu ef yn torri.

Cystal oedd ei waith dywed Brian taw dau gwsmer yn unig gollodd yn ystod ei yrfa. Mae parch mawr iddo yng ngogledd y sir am ei wasanaeth hirhoedlog a diflino nid yn unig i amaethwyr ond i eraill hefyd dros y cyfnod sydd newydd ddod i ben. Boed 'da ni sietyn ai beidio mae angen i ni gyd ddangos ein gwerthfawrogiad i Brian am gadw ein hardal eang mor daclus. Byddwn yn gweld eisiau'r tractor mawr gwyrdd gyda'r olwynion enfawr melyn yn teithio ar un filltir yr awr ar hyd ein lonydd cul a llydan.

A nawr gobeithiwn y bydd yn cael y cyfle i fwynhau'r cerdded mae newydd ddechrau gwneud a defnyddio'r coesau mae'n cyfaddef iddynt fod yn segur am gyfnod rhy hir.

Ond am nawr diolch o galon i ti Brian am dy gyfraniad i'r cylch.

Rhys Huws



Dydd a Nos

Dyma'r drydedd bennod o'r stori dditectif gyffrous gan Geraint Evans. Y tro hwn cawn wybod mwy o hanes Meurig Rhys.

Penlan oedd enw cartref Meurig Rhys ac fe safai'r tŷ ar fryncyn yn edrych i lawr ar bentref Dol-y-gaer i un cyfeiriad ac ar fae Aberdyfi i'r llall. Arweiniodd Marian Fosse y ffordd i'r drws cefn, tywys Gareth a Teri i'r gegin, ymlaen i lolfha helaeth gyda'r ffenest fawr yn y pen pellaf yn rhoi golygfa o'r môr yn y pellter.

"Ble ffeindioch chi'r papur?", holodd Gareth

Croesodd y ddynes i basej, agor drws yn syth gyferbyn a ledio'r lleill i stafell lai gyda silffoedd llyfrau ar bob wal a desg dderw hen ffasiwn yng nghanol y llawr. "Y stydi a'r llyfrgell - obsesiwn Meurig, sylfaen ei waith a'i ymchwil a'r cyfan wastad fel pin mewn papur, pob llyfr yn ei le. Trysori pob cyfrol ond yn arbennig rhain, argraffiadau cyfyngedig o lyfrau teithio Cymraeg o'r ddeunawfed ganrif. Roedd un gyfrol o'r casgliad yn gorwedd ar astell y ffenest yng ngolau'r haul a'r darn papur yn y man gwag ar y silff. Byddai Meurig byth wedi gadael y gyfrol wrth y ffenest, llawer rhy werthfawr. Neges oedd hwnna, tynnu sylw at y ffaith ei fod i bob pwrpas yn garcharor, rhywun yn gwylio pob symudiad, y rhywun sy'n euog o fwrddwr."

Tenau meddyliodd Gareth. Sgrap o bapur a neges oddi wrth unigolyn a allai fod yn ffwndro. Y neges yn cyfeirio at dabledi, ffaith oedd yn arwain yn ddigamsyniol at gyflwr meddygol o ryw fath. "Oedd Meurig Rhys o dan ofal doctor?"

"Eto dim syniad."

"Chi wedi bod drwy'r tŷ?" Nodiodd y ddynes. "Sylwi ar rywbeth anghyffredin, dodrefn wyneb i waered, droriau ar agor?"

"Y cyfan yn daclus ac yn ei le ar wahân i'r gyfrol. Wrth gwrs rhaid cofio bod yn agos at dair mlynedd ers i fi fod yn Penlan."

"Y drysau, ffrynt a chefn ar glo?"

"Oeddent. Dyna'r peth cyntaf" wnes i tsecio ar ôl ffeindio'r lle yn wag. A cyn i chi ofyn roedd Meurig yn cuddio allwedd sbâr yn y garej."

"Iawn. Nawr i'r lloffttydd plis ac yn arbennig i 'stafell wely y'ch cefnder."

Cadair fechan, ffrâm wely haearn, cypyrddau isel o'r ddeupen, wardrob ar y wal gyferbyn, a bwrdd gwisgo dyna gynnwys y stafell. Yr unig addurn oedd llun du a gwyn o adfail ar y wal uwchben y gwely. Camodd Gareth ato gan adnabod ar unwaith fwa enwog Abaty Ystrad Fflur a llofnod un o arlunwyr enwocaf Cymru. "Tipyn o chwaeth gan eich cefnder, a thipyn o arian hefyd."

"Meurig bod amser yn mynnu'r gorau. Roedd y llun yn ei atgoffa o'i fagwraeth ar fferm nid nepell o'r abat. Gwreiddiau yn ganolog iddo."

Safodd Teri wrth ymyl y gwely a rhyfeddu at y flanced binc a'i phatrwm rhosynnaidd. Os oedd y llun yn chwaethus nid felly y dillad gwely na'r carped porffor blodeuog. Od, meddyliodd a dewis braidd yn ferchetaidd i ŵr yn nesáu at oedran yr addewid. Sylwodd hefyd ar y groes wellt ar un o byst y gwely a chopi o'r Beibl ar y cwpwrdd ar yr ochr chwith. "O chi'n sôn am ffydd ac mae'r Beibl

wrth law. Crefydd yn bwysig i Mr Rhys?"

Daeth y cywiriad yn siarp. "Yr Athro Rhys. Yn eithriadol o bwysig. Mynychu'r offeren bob Sul yn Eglwys yr Holl Saint Aberystwyth i ddathlu yr hyn oedd e yn ei ddisgrifio fel hyfrydwch a gorfoledd yr addoliad."

"Mewn geiriau eraill, uchel eglwysig."

"Os i chi'n mynnu ie. Dim byd o le yn hynny, oes e?"

"Nag oes. Handi cael y darlun llawn. Oedd gan *Athro* Rhys deulu ar wahân i chi?"

"Roedd Meurig yn ddi-briod ac yn un o ddau o blant. Ei chwaer Gwen oedd fy mam a fi yw'r unig berthynas gwaed."

Ni ellid honni fod Teri yn adnabyddus am wastraffu geiriau a gofynnodd y cwestiwn nesaf yn blwmp ac yn blaen. "A chi felly yw'r etifedd?"

Tawelwch am eiliad cyn y ffrwydrad o brotest. "Ydi'r sylw 'na yn awgrymu fod gen i ran yn marwolaeth Meurig? Mwy buddiol i chi a'ch bos edrych at y ffeithiau go iawn yn hytrach na gwneud ensyniadau gwarthus!"

O glywed yr ymosodiad sylweddolodd Gareth fod rhaid troedio'n ofalus, osgoi gelyniaeth a chadw meddwl agored. "Does neb yn ensynio dim. Fe wnawn ni archwiliad cychwynnol o'r tŷ, y garej a'r siediau. Ar sail hynny penderfynu ar y cam nesaf. Yn y cyfamser os allwch chi ffeindio rhifau ffôn doctor a chyfreithiwr eich cefnder. Un peth arall, gwisgo maneg rwber, jest rhag ofn."

Roedd Teri yn falch o'r cyfle i ddianc o bresenoldeb Marian Fosse. Nid oedd yn hoffi'r ddynes ac yn cael ei hagwedd ffroenuchel yn annifyr. Ymlwybrodd yn llafurus tuag at y garej a datgloi'r drysau dwbl i ddatgelu hen Audi wedi'i orchuddio gan haen o ddwst. Aeth yn nes a sylwi fod yr allwedd yn y car. Trodd yr allwedd heb unrhyw effaith. Batri fflat meddyliodd a'r cerbyd mwy na thebyg yn llonydd ers misoedd. Tafflodd olwg o gwmpas y garej gan anwybyddu'r bwcedi gweigion a'r bocsys o hen gylchgronau.

Safai sied wrth ochr y garej, yn llawn offer garddio, y tŵls arferol ac yn fwy crand peiriant torri gwair sylweddol, hwn eto yn ôl y baw drosto heb weld golau dydd ers meitin. Chwiliodd yn ofalus drwy'r silffoedd, canfod dim o bwys a pharatoi i ddychwelyd drwy borfa uchel y lawnt i gyfeiriad y tŷ. Yna yng nghornel pellaf yr ardd gwelodd sied arall, cwt i ddweud y gwir a phenderfynu y dylid rhoi cipolwg ar y lle i wneud yn siŵr.

Ar yr ymgaes gyntaf methodd agor y drws ond yna ar ôl hyrddiad nerthol llwyddodd i gamu i mewn. Gyda gwich fetelaidd caeodd y drws yn glep tu nôl iddi a chropiodd Teri ymlaen yn yr hanner golau a lifai drwy dwll yn y to. Daeth yn ymwybodol o fwmial rhyfedd a gweld cwmwl o glêr yn cylchdroi uwchben pentwr o sachau. Drewdod oedd y synnwyr nesaf i'w tharo – drewdod melys cyfoglyd, yn gymysgedd o bydredd a bryntni. Mewn hanner ofn, hanner penderfyniad cododd ymyl un o'r sachau a gweld byddin o gynrhon yn sleifio o'r golwg. Gwyddai nawr nad oedd dewis. Symudodd weddill y sach a rhythu mewn braw ar y sgerbwd, yr esgyrn a'r penglog bron yn lân o gnawd a'r rhes o ddannedd gwynion yn solet gadarn yn y wên olaf oll.

© hawlfraint: Geraint Evans

Pwy yw'r llofrudd? Mynnwch gopi o'r rhifyn nesaf i ddarganfod mwy.

Tensiwn ar bob tudalen!

Nofelau ditectif GERAINT EVANS

y **olfa.com**

Llyfrau dros Gymru

Sesiwn Nos Wener

Un a fu yn y Sesiwn Nos Wener ar 18 Hydref i wrando ar Morus Elfryn a Nerw yn perfformio oedd gŵr o'r enw Aled Bont Jones. Dyma ychydig o'i argraffiadau ef o'r noson hwyliog hon:

'Edrych mlan i'r gorffennol oeddwn i pan glywais i fod y cantorion Morus Elfryn a Gareth Hughes Jones (Nerw) i ymddangos yn 'Sesiwn Nos Wener', yn Y Llew Gwyn, Tal-y-bont, ar nos Wener 18 Hydref.

Er bod y prif far yn weddol brysur efo cyfuniad o drigolion lleol a chefnogwyr fel ni a deithiodd yno i wyllo'r gyngerdd, mewn stafell dawelach cynhaliwyd y sesiwn.

Heblaw am doriad o lai na chwarter awr, fe gafodd pawb y modd i fyw wrth wrando ar y ddau yn hel atgofion am y dyddiau a fu wrth gyflwyno eu caneuon, efo sawl un yn y gynulleidfa'n eu cofio'n wreiddiol mae'n siŵr. Caneuon 'catchy', fel dywedai'r Sais, gan gynnwys ymysg eraill, ac nid mewn unrhyw drefn benodol, 'Heibio'r Af'; 'Gymru'; 'Ar Y Ceffyl Bach'; 'Nid Yw'r Hen Bentref Fel Fu'; 'Marw A Wnaeth Dy Dad'; ac yn olaf, 'Elen', lle ymunodd y gynulleidfa i floeddio'r anthem answyddogol hon i orffen y noson yn yr hwyl fwyaf posibl.

Hoffwn ddiolch i Morus Elfryn a Nerw am deithio lawr o'r Gogledd i'n diddanu a hefyd i Phil Davies am y croeso. Oes, mae rhaid edrych 'nôl weithiau er mwyn edrych mlan, ac mi gefais innau'n hudo 'nôl i oes na gofiau, ond gobeithio edrychaf mlan i weld Morus Elfryn a Nerw mewn noson debyg o'i fath unwaith eto.'

Aled Bont Jones



Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd yn festri Capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 8 Hydref. Estynnwyd croeso i'n gwraig wadd, sef Eirian Jones, Llangeitho, a fu'n sôn am Margaret Jones a ddisgrifiwyd fel 'Y Gymraes o Ganaan'. Mae Eirian Jones yn gweithio fel Golygydd Saesneg yng ngwasg y Lolfa, ac mae wedi cyhoeddi pum llyfr, gan gynnwys ei chyfrol *Y Gymraes o Ganaan* yn 2011.

Ganed Margaret Jones ym mis Mawrth 1842 yn Rhosllannerchrugog. Cyhoeddodd ddau lyfr yn ystod ei hoes, a threuliodd amser ar bum cyfandir. Fe'i hadwaenid fel 'Y Gymraes o Ganaan' gan iddi gyhoeddi cyfres o'i llythyrau i'w rhieni o Baris, Jerwsalem a Beirut yn y gyfrol *Llythyrau Cymraes o Wlad Canaan* yn 1869. O 1870 ymlaen, bu'n teithio ar hyd a lled Cymru yn darlithio am ei phrofiadau yng Nghanaan. Yna bu'n gweithio fel cenhades ym Moroco am dair blynedd, ac wedi hynny cyhoeddodd y llyfr *Moroco, a'r hyn a welais yno* yn 1883. Teithiodd o amgylch yr Unol Daleithiau am ddwy flynedd yn darlithio am Ganaan, cyn ymfudo i Queensland, Awstralia yn 1889 a phriodi James Josey, dyn cyfoethog iawn. Roedd Margaret wedi teithio'n bell o'i chartref tlawd yn y Rhos, i ogoniant stad brydferth yn Queensland, ac yno y bu farw ym mis Hydref 1902 yn 60 oed.

Diolchodd Eiriona i Eirian Jones am draddodi hanes diddorol ac anghyffredin Margaret Jones, ac yna mwynhawyd te a sgon wedi eu paratoi gan Ann Humphreys.

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



Y Gair Olaf



Hanner canrif yn union yn ôl fe fues i ymhlith y cannoedd a oedd yn protestio ger Sain Helen Abertawe yn erbyn ymweliad tîm rygbi'r Springboks o Dde Affrica. Dim ond dynion gwyn eu croen câi chwarae i'r tîm 'cenedlaethol' hwnnw, canlyniad i'r system ddiefflig o'r enw 'Apartheid' a roddai statws israddol i bobl o grwpiau ethnig eraill.

Dysgaes lawer y diwrnod hwnnw ynglŷn ag agweddau rhai o'm cyd-Gymry a ystyriai rygbi yn bwysicach na chyfiawnder ac am dactegau mileinig rhai o heddlu De Cymru.

Fe gymerodd dros ugain mlynedd cyn i Apartheid ddod i ben a sefydlu gwladwriaeth yn Ne Affrica lle'r oedd pawb yn gyfartal beth bynnag oedd lliw eu croen. Braf oedd gweld chwaraewyr tîm rygbi De Affrica yn cynrychioli pob cefndir o 'wlad yr enfys' yn ennill Cwpan y Byd (er y canlyniad yn erbyn Cymru), gyda dyn du diymhongar yn gapten.

Er nad yw pob protest dorfol yn llwyddiannus yn y cyfnod byr, ni ddylai hynny atal ni gyd rhag cynnal protest er mwyn unioni cam neu i bwyso am ddyfodol gwell.

Roedd y brotest yn erbyn ail-wylltio yn yr ardal hon yn llwyddiannus o fewn mater o wythnosau ond eithriad yw hynny fel arfer. Efallai na ddaw dim o'r protestiadau enfawr yn erbyn Brexit, gan gynnwys y miliwn o bobl a mwy a fu yn Llundain yn ddiweddar, ond yn y tymor hir fe fydd agweddau'n newid.

Mae mwy nag un ffordd o brotestio. Daw cyfle ym mis Rhagfyr i fwrw pleidlais - cyfle i daro nôl yn erbyn y sawl sydd am danseilio'n cymunedau a'n cenedl.

Gwyn Jenkins

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235



Mae BroAber360 yn fyw!

gan Daniel Johnson - ysgogydd Bro360 yng ngogledd Ceredigion

Shwmai bawb! Ers i mi fynd ati i sgwennu'r golofn ddwetha, mae gwefan BroAber360 wedi chwyddo mewn maint, ac mae nifer o straeon amrywiol, aml-gyfrwng arni - o ddarn am yr heriau o gynnal sioe amaeth leol i ganllaw ar hel madarch yn yr ardal, felly ewch i broaber360.cymru i weld be sydd o ddiddordeb i chi!

Dros y mis diwetha dwi wedi bod yn ymweld â llwyth o ysgolion, ac wedi helpu'r disgyblion i gyhoeddi eu straeon eu hunain. Maen nhw wedi mwynhau creu fideos a thynnu lluniau er mwyn cyhoeddi eu hanesion ar y we, yn ogystal â chreu logos a chymryd rhan mewn cwis am eu bro.

Dwi'n sgwennu'r golofn yma ar ddiwrnod cynta Steddfof CFfl Ceredigion, lle byddwn yn helpu'r aelodau i gynnal blog byw am y cystadlu a hynt a helynt y clybiau, felly os ydych chi ise dal fyny 'da'r diwrnod, ewch i BroAber360.cymru!

Yr hyn sy'n gwneud y wefan straeon yma'n wahanol yw mai eich straeon chi sydd yno. Mae cyfle i bob un ohonoch gyfrannu, ac mae sawl un wedi gwneud yn barod! Ewch i broaber360.cymru, pwyswch y botwm **Ymuno**, a nodwch eich cyfeiriad ebost a'ch lleoliad. Mae creu cyfrif mor syml â hynny!

Ar hyn o'r bryd fersiwn sylfaenol o'r wefan sydd ar gael, ond rydym wrthi'n ei datblygu drwy'r amser. Y funud hon rydym yn bennu creu calendr digidol, a fydd ar gael yn fuan iawn i chi ei ddefnyddio i hyrwyddo eich digwyddiadau. Bydd hwn yn gyfle i'r gwasanaeth wneud gwahaniaeth go iawn i drefnwyr a phawb sydd am weld mwy o bobol yn dod at ei gilydd yn ein cymunedau.

Os hoffech sgwrs am y prosiect, neu os hoffech chi gyfrannu deunydd heb wybod sut, cysylltwch â mi ar daniel@bro360.cymru neu 01570 423529.

CHWARAEON



Un o'r deuddeg ar y ffordd i'r rhwyd

Crasfa i Dal-y-bont

Pan oeddwn yn blentyn ac yn gwylio tîm pêl-droed Aberystwyth yng Nghynghrair Cenedlaethol De Cymru, un o'r timau cryfaf yn y dyddiau hynny oedd Brecon Corinthians neu Brecon Corries fel yr adwaenid y clwb o sir Frycheiniog.

Sioc i mi felly oedd clywed bod clwb o'r statws hwn i chwarae yn erbyn Tal-y-bont yn ail rownd Cwpan Emrys Morgan, cystadleuaeth a enillwyd gan Dal-y-bont yn y gorffennol.

Mae'n debyg fod y Corries wedi gadael rhanbarth y De er mwyn dringo i'r brig drwy gynghreiriau'r Canolbarth. Felly dyma'r bechgyn o Frycheiniog yn eu crysau coch yn glanio ym Mlaendolau ar bnawn Sadwrn 19 Hydref.

Roedd yn amlwg o'r cychwyn bod y Corries yn llawer rhy gryf a medrus i fechgyn Tal-y-bont. Sgoriwyd gôl ar ôl gôl a doedd gan Huw Taylor druan yn y gôl i Dal-y-bont fawr o obaith gan fod yr amddiffyn o'i flaen mor simsan.

Yn y diwedd 0-12 oedd y sgôr. Pnawn i'w anghofio felly i Dal-y-bont.



Parti Calan Gaeaf

Braf oedd gweld y plant yn mwynhau yn y parti calan gaeaf a gynhaliwyd gan Gylch Meithrin Talybont. Gwelwyd nifer o gymeriadau arswydus iawn, ac roedd her fawr i'r beirniad wrth ddewis enillwyr ar gyfer y gystadleuaeth gwisg ffansi. Diolch i bawb am eich cefnogaeth unwaith eto gyda'r noson lwyddiannus yma.

I weld beth mae plant y Cylch yn wneud o ddydd i ddydd gallwch ddilyn Cylch Meithrin Talybont ar Facebook.

Colofn Cletwr

Beth yw'r digwyddiad pwysicaf, mwyaf diddorol yn Cletwr bob blwyddyn? Ie, y Cyfarfod Cyhoeddus Blyneddol (CCB)! Does fawr o bobl yn mynd i CCBau fel arfer, ond maen nhw'n bwysig. Yn achos Cletwr, mae'n gyfle i bawb glywed mwy am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd tu ôl i'r wyneb - ar cynlluniau i'r dyfodol. Cyfle hefyd i ofyn cwestiynau, a gwneud sylwadau - rhan o'r gymuned yw Cletwr, ac mae'n bwysig i bawb gael eu dweud. Cynhelir y CCB yn Cletwr ar Ddydd Sul, 17eg o Dachwedd. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 4pm gyda the a chacen a chyfle i gymdeithasu. Dewch yn llw.

Mae mis Hydref wedi bod yn fis da. Roedd y plant yn brysur yn gwneud llusernau ar gyfer yr orymdaith ym Machynlleth. Cawsom noson arswydus (ond gwyh) wrth wrando ar Daniel Mordern yn adrodd "Straeon Tywyll o'r Goedwig" ar Nos Galan Gaeaf (wedi i'r plant fynd rownd y pentref yn codi ofn ar bawb!).

Ond beth arall sy'n dod? Mae pobl wedi bod yn prynu briwigig Jane bob blwyddyn - ond nawr dyma gyfle ichi wneud eich briwigig eich hunan! Ar Dachwedd 21ain bydd Jane yn rhedeg gweithdy coginio. Dewch a'ch jars gwag!

Ac ar 19eg o Dachwedd rydyn ni'n dathlu Diwrnod Cenedlaethol Toiledau! Dyma ran o'n hymgyrch Toilet Twinning. Bydd cacennau 'arbennig' ar werth yn y caffi, a gwybodaeth am yr ymgyrch. Ers i ni gychwyn codi arian ar gyfer Toilet Twinning tua 18 mis yn ôl, mae cwsmeriaid Cletwr wedi cyfrannu dros £3,500! Mae'r arian wedi talu am doiledau mewn 5 ysgol, dau wersyll ffoaduriaid ac 14 o gartrefi. Mae peth arian dal yn y banc hefyd! Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu mor haelionus.

Gyda'r Nadolig yn nesáu yn gyflym, rhowch nodyn yn eich dyddiadur am y Ffair Nadolig ar 6ed o Ragfyr. Anrhegion o bob math a wnaethpwyd gan bobl leol. Hefyd, cofiwch fod Cletwr yn cynnig gwasanaeth 'bocs llysiau' ar gyfer y 'Dolig. Cewch archebu eich llysiau ar gyfer yr Wyl a'u codi nhw yn ffres o'r siop ar Noswyl Nadolig. Ffurflenni ar gael yn y siop. A beth am ddod i'r gweithdy "Gwneud Torchau" gyda Grace Crabb ar 28ain?

Felly cadwch lygaid ar y dyddiadur (ac ar Gweplyfr) a dewch i'ch siop, caffi a hwb cymunedol CHI, yn aml!

Nigel Callaghan



Ffair Nadolig Cletwr

Crefftau tymhorol, syniadau ar gyfer anrhegion a bwyd Nadoligaidd.

Dydd Gwener 6 Rhagfyr 5-7.30yn

argraffu da am bris da





holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com